Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

Gorffennaf 2023

1. Y cefndir

Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) Llywodraeth y DU

1. Cafodd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ei osod yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, cafodd y Bil hwn ei ohirio wedi hynny cyn ei ail ddarlleniad.

2. Cafodd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)[1] (y Bil) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 8 Mawrth 2023. Noddir y Bil gan yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

3. Cynhaliwyd ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Ebrill 2023 a daeth y Cyfnod Pwyllgor i ben ar 23 Mai 2023.

4. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu'r trosolwg a ganlyn:

> *"This Bill is intended to update and simplify the UK's data protection framework with a view to reducing burdens on organisations while maintaining high data protection standards."*[2]

5. Mae enw hir y Bil yn datgan ei ddiben fel a ganlyn:

> "*to make provision for the regulation of the processing of information relating to identified or identifiable living individuals; to make provision about services consisting of the use of information to ascertain and verify facts about individuals; to make provision about access to customer data and business data; to make provision about privacy and electronic communications; to make provision about services for the provision of electronic signatures, electronic seals and other trust services; to make provision about the disclosure of information to improve public service delivery; to make provision for the implementation of agreements on sharing information for law enforcement purposes; to make provision*

[1] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), fel y'i cyflwynwyd (Bil 265) [Saesneg yn unig]
[2] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

about the keeping and maintenance of registers of births and deaths; to make provision about information standards for health and social care; to establish the Information Commission; to make provision about oversight of biometric data; and for connected purposes."

6. Ar yr adeg y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad, nid oedd y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i gyhoeddi eto.

Gwybodaeth gefndir

7. Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar ddiogelu data a phreifatrwydd yn yr UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Mae hefyd yn ymdrin â throsglwyddo data personol y tu allan i ardaloedd yr UE a'r AEE.

8. Mae'r GDPR yn gweithio ochr yn ochr â *Deddf Diogelu Data 2018* y DU i reoli prosesu data personol yn y DU.

9. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, dargadwyd y GDPR mewn cyfraith ddomestig fel 'GDPR y DU' ac mae'n parhau i gyd-fynd â Deddf Diogelu Data 2018 wedi'i diwygio.

10. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU "Data: A new direction"[3], sef dogfen ymgynghori a oedd yn ceisio barn am nifer o ddiwygiadau arfaethedig i gyfundrefn diogelu data cyfreithiol bresennol y DU, yn bennaf i GDPR y DU. Cyfrannodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad.[4]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

11. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

12. Ar 29 Mawrth 2023, gosododd Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[5]

[3] Ymgynghoriad Llywodraeth y DU: 'Data: A New Direction' , 10 Medi 2021 [Saesneg yn unig]
[4] 'Data: a new direction': Ymateb Llywodraeth Cymru, 13 Ionawr 2022
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Mawrth 2023

13. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 8 Mehefin 2023.[6] Yn dilyn hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad diweddarach, sef 15 Medi 2023.[7]

Trefniadau gweithio rhynglywodraethol

14. Yn y Memorandwm mae'r Prif Weinidog yn datgan, cyn cyflwyno'r Bil gwreiddiol ym mis Gorffennaf 2022, yr ymgysylltodd Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru "ar lefel swyddogol drwy grwpiau traws-DU" i drafod agweddau ar "gyfeiriad rhai meysydd yn y Bil", a bod "swyddogion Llywodraeth y DU wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â Swyddogion Llywodraeth Cymru".[8] Mae'r Prif Weinidog hefyd yn datgan y rhannwyd fersiwn ddrafft o'r Bil a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2023 â Llywodraeth Cymru y diwrnod cyn ei gyflwyno i Senedd y DU.[9]

15. Mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 8 Mawrth 2023, dywedodd Michelle Donelan AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (yr Ysgrifennydd Gwladol), fod y Bil a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2023 yn dilyn proses gydlunio fanwl gyda grwpiau diwydiant, busnes, preifatrwydd a defnyddwyr.[10]

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

16. Mae cyfeiriadau yn y Memorandwm at ddarpariaethau yn y Bil yn gyfeiriadau at y fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin.

17. Yn ôl asesiad y Prif Weinidog, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil (fel y'i cyflwynwyd), fel y nodir ym mharagraffau 17 i 27 o'r Memorandwm:

- cymalau 54 a 56 (Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig, a Chod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth);

[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Mawrth 2023
[7] Gweler y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Mehefin 2023
[8] Y Memorandwm, paragraffau 15 ac 16
[9] Y Memorandwm, paragraff 16
[10] Data Protection and Digital Information (No. 2) Bill - Hansard - Senedd y DU, Datganiad Ysgrifenedig, 8 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

- cymalau 61 i 77 (Rhan 3 o'r Bil, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau);
- cymal 92 (Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau);
- cymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith).[11]

18. Yn y Memorandwm, mae'r Prif Weinidog yn rhoi trosolwg o safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad, wedi'i lywio gan ohebiaeth a anfonwyd ato gan Julia Lopez AS, Gweinidog Gwladol yn yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar 7 Mawrth 2023. Mae'n datgan y canlynol ynghylch Llywodraeth y DU:

- mae'n gofyn i'r Senedd am ei chydsyniad mewn cysylltiad â chymalau 61 i 77, cymal 92 a chymal 93;
- nid yw'n gofyn i'r Senedd am ei chydsyniad ar gyfer cymalau 54 ac 56.[12]

19. Mewn perthynas â safbwynt Llywodraeth y DU ar gymalau 54 a 56, mae'r Prif Weinidog yn datgan y canlynol:

> *"...mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd DVS [Gwasanaethau Dilysu Digidol] bob amser yn golygu defnyddio'r rhyngrwyd mewn rhyw ffordd, ac felly mae wedi'i gadw yn ôl am ei fod yn fater sy'n ymwneud â gwasanaethau'r rhyngrwyd..*
>
> *Mae ymagwedd Llywodraeth y DU yn awgrymu y byddai unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy'r rhyngrwyd yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae hynny'n ddehongliad eithriadol o eang o'r mater neilltuedig hwn ac, yn fy marn i, ni all fod yn gywir."*[13]

Safbwynt Llywodraeth Cymru

20. Nodir safbwynt cyffredinol y Prif Weinidog ar y Bil ym mharagraffau 31 i 37 o'r Memorandwm a nodir materion allweddol sy'n peri pryder ym mharagraffau 38 i 44 o'r Memorandwm.

[11] Y Memorandwm, paragraffau 17 i 27
[12] Y Memorandwm, paragraffau 28 a 29
[13] Y Memorandwm, paragraffau 29 a 30

21. Mae'r Prif Weinidog yn datgan y canlynol:

> *"Mae'r rhan fwyaf o'r Bil yn ymwneud â materion a ddargedwir am fod diogelu data yn fater wedi'i gadw yn ôl, bod gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr yn fater wedi'i gadw yn ôl, bod telathrebu yn fater wedi'i gadw yn ôl, a bod cofrestru genedigaethau, marwolaethau a mannau addoli yn fater wedi'i gadw yn ôl, fel y nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O'r herwydd, rwy'n credu y gallai fod yn briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud drwy Fil y DU."*[14]

22. Fodd bynnag, mae hefyd yn datgan y canlynol:

> *"...mae pryderon y gallai'r Bil arwain at danseilio hawliau unigolion, a gwanhau annibyniaeth yr ICO [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth] fel y rheoleiddiwr.*
>
> *Mae pryderon hefyd bod cyflwyno'r Bil yn creu risg i benderfyniad digonolrwydd presennol y DU, a roddwyd ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod o 4 blynedd i ddechrau. Mae'r posibilrwydd o golli penderfyniad digonolrwydd data'r UE yn bryder arbennig o safbwynt masnach gan y byddai hyn yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru, sydd â'u prif farchnad dramor yn yr UE o hyd."*[15]

23. Er ei fod yn ystyried ei bod yn briodol i'r Senedd roi ei chydsyniad mewn perthynas â chymal 54 (Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig), mae'r Prif Weinidog yn datgan yn y Memorandwm, mewn perthynas â chymal 56 (Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth), fod angen ystyried goblygiadau'r pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys gyhoeddi cod ymarfer ledled y DU. Mae'r Prif Weinidog yn datgan y byddai'n rhoi diweddariad maes o law.[16]

24. Ym mharagraffau 40 i 42 o'r Memorandwm, mae'r Prif Weinidog yn nodi materion sy'n peri pryder mewn perthynas â chymalau 61 i 77, yn enwedig y pwerau gwneud rheoliadau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys. Unwaith eto, mae'r Prif Weinidog yn datgan bod angen ystyried goblygiadau'r pwerau dirprwyedig hyn ac y byddai'n rhoi diweddariad maes o law.

[14] Y Memorandwm, paragraff 36
[15] Y Memorandwm, paragraffau 33 a 34
[16] Y Memorandwm, paragraffau 38 a 39

25. Ar gymal 93, mae'r Prif Weinidog yn datgan y dylid rhoi pwerau gwneud rheoliadau priodol i Weinidogion Cymru at ddiben gweithredu cytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth ar gyfer agweddau gorfodi'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a bod hyn hefyd yn destun trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU.[17]

26. I gloi, barn y Prif Weinidog fel y nodir yn y Memorandwm yw ei bod yn briodol i'r Senedd roi ei chydsyniad i gymalau 54 a 92. Fodd bynnag, ar adeg gosod y Memorandwm, nid oedd y Prif Weinidog o'r farn ei bod yn briodol argymell rhoi cydsyniad ar gyfer cymal 56, cymalau 61 i 77, a chymal 93 nes bod rhagor o drafodaethau wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU.[18]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

27. Ar 10 ac 11 Mai 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r Bil i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

28. Gosododd y Prif Weinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)[19] mewn cysylltiad â'r gwelliannau hyn ar 25 Mai 2023.

29. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 15 Medi 2023.[20]

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

30. Mae rhifau cymal ym Memorandwm Rhif 2 yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin. Mae cyfeiriadau at rifau cymal newydd yn gyfeiriadau at y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus.[21]

31. Fel y nodir ym mharagraffau 13 i 25 o Femorandwm Rhif 2, yn ôl asesiad y Prif Weinidog, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn:

[17] Y Memorandwm, paragraff 44
[18] Y Memorandwm, paragraffau 47 ac 48
[19] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), 25 Mai 2023
[20] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Mehefin 2023
[21] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, 9 Mehefin 2023 [Saesneg yn unig]

- gwelliant NC3 (Gwybodaeth a ddatgelwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru);
- gwelliant 46, sy'n ymwneud â chymal 61 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 65 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) (Data am gwsmeriaid a data am fusnesau);
- gwelliannau 8 i 16 ac NC5, sy'n ymwneud â chymal 93 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 99 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) (Gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth gorfodi'r gyfraith) a chymal 108 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 115 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) (Rheoliadau).

32. Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Prif Weinidog yn darparu trosolwg o safbwynt Llywodraeth y DU[22] ar yr angen am gydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn i'r Bil. Mae'r Prif Weinidog yn datgan y canlynol ynghylch Llywodraeth y DU:

- mae'n cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer gwelliant 46 sy'n ymwneud â chymal 61, a gwelliannau 8 i 16 ac NC5 sy'n ymwneud â chymalau 93 a 108;
- nid yw'n ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliant NC3.[23]

Safbwynt Llywodraeth Cymru

33. Mae'r Prif Weinidog yn nodi, ers gosod y Memorandwm, bod "swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd", ac mae hefyd yn nodi bod Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, wedi cyfarfod â Syr John Whittingdale, Gweinidog Gwladol yn yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i drafod y Bil a phryderon Llywodraeth Cymru.[24]

34. Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Prif Weinidog yn datgan nodi bod swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod cymal 55 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 57 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), sy'n nodi na chaniateir i wybodaeth a ddatgelir gan Cyllid a Thollau Ei

[22] Ar yr adeg y gwnaethom gytuno ar yr adroddiad, ni chyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o Nodiadau Esboniadol y Bil i adlewyrchu'r Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus.
[23] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 26 a 27
[24] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 5 a 6

Fawrhydi (CThEF) i ddarparu Gwasanaethau Dilysu Digidol gael ei rhannu ymhellach heb gydsyniad Comisiynwyr CThEF.[25]

35. Mae'r Prif Weinidog yn datgan y canlynol ym Memorandwm Rhif 2:

> *"Gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru am ddarpariaethau tebyg ar gyfer data a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), gan gydnabod y gofynion cyfreithiol a roddir ar ACC ynghylch cadw cyfrinachedd 'gwybodaeth warchodedig am drethdalwyr (fel y'i nodir yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016). Gofynnodd Llywodraeth yr Alban am ddarpariaethau tebyg hefyd."*[26]

36. Ychwanegodd y Prif Weinidog fod Gwelliant NC3 yn nodi "pan fydd Awdurdod Cyllid Cymru yn datgelu gwybodaeth o dan gymal 54 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 56 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), bod y cymal newydd hwn yn atal datgelu'r wybodaeth honno ymhellach heb gydsyniad Awdurdod Cyllid Cymru."[27] Mae'r Prif Weinidog yn fodlon bod gwelliant NC3 yn "adlewyrchu'n well y gofynion cyfreithiol sydd ar Awdurdod Cyllid Cymru" ac felly ei bod yn "briodol argymell rhoi cydsyniad ynghylch Gwelliant NC3".[28]

37. Mae gwelliant 46 yn diwygio diffiniad "data am fusnesau" yng nghymal 61 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 65 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) i sicrhau cysondeb ar draws y diffiniad a'r enghreifftiau a roddwyd. Yn y datganiad esboniadol sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r gwelliant gan Lywodraeth y DU, datganwyd bod y gwelliant hwn yn diwygio enghraifft a roddir yn y diffiniad fel ei fod yn cyfeirio at yr hyn a ddarperir, yn ogystal â'r hyn a gyflenwir.[29]

38. Cafodd y darpariaethau yng nghymalau 61 i 77 (fel y'u cyflwynwyd; bellach cymalau 65 i 81 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) eu cynnwys yn y Memorandwm fel darpariaethau perthnasol. Felly, mae'r Prif Weinidog o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer gwelliant 46 gan ei fod yn Rhan 3 o'r Bil.[30] Fodd bynnag, nid yw'r Prif Weinidog yn

[25] Memorandwm Rhif 2, paragraff 13
[26] Memorandwm Rhif 2, paragraff 14
[27] Memorandwm Rhif 2, paragraff 16
[28] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 29 ac 36
[29] Tŷ'r Cyffredin, Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) (Papur Diwygio), Gwelliant 'Gov 46', tudalen 22 [Saesneg yn unig]
[30] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 18 i 21

fodlon argymell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r newid a wnaed i gymal 61 drwy welliant 46 nes y ceir rhagor o drafodaethau â Llywodraeth y DU.[31]

39. Ym mharagraffau 22 i 25 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Prif Weinidog yn gwneud sylwadau ar welliannau 8 i 16 ac NC5 sy'n ymwneud â chymalau 93 a 108 (fel y'u cyflwynwyd; bellach cymalau 99 a 115 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

40. Mae cymal 93, fel y'i cyflwynwyd, yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau, fel y mae'n ystyried eu bod yn briodol, at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith.

41. Ym mharagraffau 22 a 23 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Prif Weinidog yn datgan y cynhaliwyd trafodaethau rhwng swyddogion swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU. Mae'n datgan, drwy gydol y trafodaethau hyn, y gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod "pwerau cydredol a mwy yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar waith sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddiben agweddau ar orfodi'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd Senedd Cymru.

42. Cyflwynwyd gwelliannau 8 i 16 ac NC5 o ganlyniad i'r trafodaethau hyn. Mae paragraff 24 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi'n fanwl effaith y gwelliannau hyn.

43. Prif effaith gwelliannau 8, 10 ac NC5 yw galluogi'r pŵer gwneud rheoliadau a roddir gan gymal 93 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 99 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) i gael ei arfer ar yr un pryd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, mewn perthynas â materion datganoledig, gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban. Fodd bynnag, ni chynhwysir trefniant cydsynio sy'n golygu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer heb geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Byddai'r pwerau gwneud rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

44. Ym mharagraff 31 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol:

> *"Er bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn mewn ymateb i'n cais am bwerau gwneud rheoliadau priodol i Weinidogion Cymru, mae'r gwelliannau fel y maent wedi'u*

[31] Memorandwm Rhif 2, paragraff 37 Gweler paragraff 30 hefyd.

drafftio yn rhoi pŵer cydredol i Weinidogion Cymru yn unig, heb drefniant cydsynio pe bai Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer."

45. Mae'r Prif Weinidog yn ychwanegu bod Llywodraeth Cymru yn parhau i wrthwynebu'r defnydd o bwerau cydredol o'r fath, a'i bod yn "parhau i drafod â Llywodraeth y DU ar y gwelliannau hyn". Ei farn ef yw na fyddai'n briodol argymell cydsyniad i gymalau 93 a 108 fel y'u diwygiwyd gan welliannau 8 i 16 ac NC5 heb ragor o drafodaeth a rhagor o welliannau.[32]

46. Cytunwyd ar y gwelliannau yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

Y dynamig rhwng y DU a'r UE

Penderfyniad digonolrwydd yr UE

47. Yn y Memorandwm, mae'r Prif Weinidog yn datgan mai un o bryderon cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran cynigion y DU yw colli digonolrwydd yr UE o bosibl a'r effaith ar Gymru.[33]

48. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd y pŵer i benderfynu a yw gwlad y tu allan i'r UE yn cynnig lefelau digonol o ddiogelu data. Mae penderfyniad digonolrwydd yn golygu nad oes angen rhagor o fesurau diogelu ar gyfer llif data personol o'r UE, Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ i drydydd gwledydd, megis y DU.[34]

49. Cafodd y DU benderfyniad digonolrwydd yn llwyddiannus ar 28 Mehefin 2021[35] yn dilyn ymadael â'r UE ar gyfer rhannu data personol ac ar gyfer cydweithrediad gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys fel y rhagwelir gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[36]

50. Penderfyniad digonolrwydd y DU oedd y cyntaf i gynnwys darpariaeth fachlud, sy'n golygu ei fod yn gyfyngedig i bedair blynedd, hyd at fis Mehefin 2025.

51. Ym mis Medi 2021, lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar ddiwygiadau i gyfundrefn diogelu data'r DU.[37] Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r

[32] Memorandwm Rhif 2, paragraff 32
[33] Y Memorandwm, paragraff 13
[34] Y Comisiwn Ewropeaidd, Adequacy decisions [Saesneg yn unig]
[35] Y Comisiwn Ewropeaidd, Data protection: Commission adopts adequacy decisions for the UK, 28 Mehefin 2021 [Saesneg yn unig]
[36] Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, Trade and Cooperation Agreement, 30 Ebrill 2021 [Saesneg yn unig]
[37] Consultation outcome 'Data: a new direction', Llywodraeth y DU, fel ym mis Gorffennaf 2023 [Saesneg yn unig]

ymgynghoriad.[38] Drwy gydol ei hymateb, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at yr angen i osgoi effeithiau negyddol ar y penderfyniad digonolrwydd.

52. Nid yw'r Prif Weinidog yn ailedrych ar y materion hyn ym Memorandwm Rhif 2, ac nid oes sôn am y penderfyniad digonolrwydd.[39]

53. Gwnaethom ysgrifennu at y Prif Weinidog ar 15 Mai 2023 a gofyn am fwy o wybodaeth am y goblygiadau i Gymru pe bai'r penderfyniad digonolrwydd yn cael ei golli.[40]

54. Yn ei ymateb, mae'r Prif Weinidog yn datgan y canlynol:

> *"Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yng Nghymru, yn enwedig y rhai yn y sector gwasanaethau ariannol a'r sector technoleg, yn dibynnu ar lifoedd data trawsffiniol; sef y gallu i drosglwyddo data personol am eu cwsmeriaid neu eu staff i gynnig nwyddau neu wasanaethau, ac i storio e-byst a ffeiliau ar y cwmwl."*[41]

55. Mae'r Prif Weinidog yn nodi canlyniadau colli'r penderfyniad digonolrwydd, gan gynnwys yr angen am ragor o fesurau diogelu, yn arwain at darfu, costau ychwanegol a gofynion gweinyddol ac adrodd ar fusnesau Cymru a'r UE. Dywedodd wrthym "ei bod yn bosibl y byddai [hyn] yn gwneud Cymru a'r DU yn llai deniadol ar gyfer buddsoddiadau gan gwmnïau yn yr UE".[42]

56. Ychwanegodd y Prif Weinidog nad yw'r Bil, yn ôl pob golwg, "yn asesu'r risg" o ran newidiadau i gyfundrefn data'r DU, ac mae'n dod i'r casgliad a ganlyn:

> *"Ein barn ni yw y gallai newidiadau i gyfundrefn GDPR y DU beryglu penderfyniad GDPR yr UE ynghylch digonolrwydd, sy'n cael ei fonitro'n gyson a gall gael ei dynnu yn ôl ar unrhyw adeg."*[43]

57. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi codi'r mater sawl gwaith yn swyddogol gyda Llywodraeth y DU, sydd wedi rhoi sicrwydd "nad

[38] 'Data: a new direction': Ymateb Llywodraeth Cymru, 13 Ionawr 2022
[39] Memorandwm Rhif 2
[40] Llythyr at y Prif Weinidog, 15 Mai 2023, cwestiwn 7
[41] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 7
[42] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 7
[43] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 7

yw'n gweld unrhyw berygl i'r cytundeb digonolrwydd". Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn am gopi o asesiad risg Llywodraeth y DU, ond nid yw wedi cael hyn eto.[44]

Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

58. Yn ogystal â thelerau penderfyniad digonolrwydd y DU gan yr UE, mae'r Bil hefyd yn croestorri rhwymedigaethau'r DU a'r UE.

59. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gosod dyletswyddau ar y DU a'r UE ynghylch materion a gwmpesir gan y Bil, yn benodol ar ddiogelu data personol, trosglwyddiadau data trawsffiniol, a chydweithrediad gorfodi'r gyfraith. Er enghraifft, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn nodi wyth sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac un ohonynt yw diogelu data personol. Mae'r partïon hefyd yn cydnabod bod gan unigolion yr hawl i ddiogelu data personol a phreifatrwydd a bod safonau uchel yn hyn o beth yn cyfrannu i ymddiriedaeth yn yr economi ddigidol ac i ddatblygiad masnach.[45]

60. Mae Rhan 3 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn rheoli cydweithrediad rhwng y DU a'r UE ynghylch gorfodi'r gyfraith a chydweithrediad barnwrol o ran materion troseddol. Mae enghreifftiau o gydweithredu yn cynnwys cyfnewid DNA, data olion bysedd a chofrestru cerbydau, a gwybodaeth cofnodion troseddol. Gellir atal Rhan 3 dros dro gyda 3 mis o rybudd gan y naill barti neu'r llall os bydd diffygion difrifol a systemig gan un parti o ran diogelu hawliau sylfaenol neu egwyddor rheolaeth y gyfraith.[46]

Adroddiadau gan bwyllgorau yn Senedd y DU

61. Gwnaeth y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol alwad am dystiolaeth, a ddaeth i ben ar 26 Mai.[47]

62. Ar yr adeg y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad, nid oedd y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol wedi cyhoeddi ei adroddiad eto.

[44] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 7
[45] Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, Erthygl 769, tudalen 149/980
[46] Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, Erthygl 693, tudalen 149/876
[47] (Cyd-bwyllgor) Hawliau Dynol, Legislative Scrutiny: Data Protection and Digital Information Bill [Saesneg yn unig]

2. Trafodaeth y Pwyllgor

63. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 9 Mai 2023.[48] Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 53, gwnaethom ysgrifennu at y Prif Weinidog ar 15 Mai 2023, a chawsom ymateb ar 14 Mehefin.

64. Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 2 ar 19 Mehefin 2023.[49]

65. Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 10 Gorffennaf 2023.[50]

Ein barn ni

Trefniadau gweithio rhynglywodraethol

66. Fel y pwysleisiwyd uchod ym mharagraffau 14 a 15, ac fel y nodwyd ym mharagraffau 15 ac 16 o'r Memorandwm, nodwn y bu ymgysylltiad parhaus ar ddatblygu'r Bil yn swyddogol ar draws Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

67. O ystyried yr ymgysylltiad hwn, mae'n anffodus bod materion sy'n peri pryder o hyd, fel rydym yn sôn ac yn ystyried yn y paragraffau a ganlyn.

Cydsyniad deddfwriaethol

68. Nodwn asesiad y Prif Weinidog o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.

69. Yn ein llythyr at y Prif Weinidog ar 15 Mai, gwnaethom ofyn iddo egluro pam, os yw Llywodraeth Cymru o'r farn y cyffyrddir â meysydd datganoledig ar gyfer cymalau 54 ac 56 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymalau 56 a 60 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), na ddylid ceisio cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer darpariaethau eraill o sylwedd yn Rhan 2 o'r Bil.[51]

70. Yn ei ymateb ar 14 Mehefin, ysgrifennodd y Prif Weinidog y canlynol:

> "*Mae cymalau 54 a 56 yn rhoi pŵer i awdurdodau cyhoeddus i roi gwybodaeth bersonol am unigolion (yn ddarostyngedig i gydsyniad) i*

[48] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Mai 2023
[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Mehefin 2023
[50] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Gorffennaf 2023
[51] Llythyr at y Prif Weinidog, 15 Mai 2023

sefydliadau sy'n darparu Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS). Y diben yw gwneud darparu gwasanaethau dilysu digidol yn haws a gwella'r gwasanaethau a gynigir i'r defnyddiwr. Yn wahanol i gymalau eraill yn Rhan 2, nid ydynt yn ymwneud â rheoli gwasanaethau dilysu digidol."[52]

71. Rydym yn cytuno â'r Prif Weinidog bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 61 i 77, 92 a 93 (fel y'u cyflwynwyd; bellach cymalau 65 i 81, 98 a 99 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) fel y nodir yn y Memorandwm. Rydym hefyd yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Gwelliant NC5 (cymal 100 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) a'r gwelliannau a wnaed i gymalau 61, 93 a 108 (fel y'u cyflwynwyd; bellach cymalau 65, 99 a 115 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

72. O ran cymalau 54 ac 56 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymalau 56 a 60 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), a'r gwelliannau i'r cymalau hynny, nodwn fod y Prif Weinidog o'r farn bod Llywodraeth y DU wedi cymryd "dehongliad eithriadol o eang" o fater neilltuedig 'gwasanaethau'r rhyngrwyd', ac mae'r Prif Weinidog yn credu bod y cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes ac felly maent yn ddarpariaethau perthnasol at ddiben Rheol Sefydlog 29.

Casgliad 1. Rydym yn anghytuno â'r Prif Weinidog bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 54 ac 56 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymalau 56 a 60 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus). Rydym hefyd yn anghytuno bod angen cydsyniad ar gyfer Gwelliant NC3 (cymal 58 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

Casgliad 2. Rydym o'r farn bod cymalau 61 i 77, 92, 93 a 108 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymalau 65 i 81, 98, 99 a 115 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), a'r gwelliannau a wnaed i'r cymalau hynny, ynghyd â Gwelliant NC5 (cymal 100 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 29, ac felly mae arnynt angen cydsyniad y Senedd.

[52] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023

Sylwadau ynghylch cymalau penodol o'r Bil

Cymal 56

73. Yn ein llythyr at y Prif Weinidog, gwnaethom gyfeirio at ei sylwadau ym mharagraff 39 o'r Memorandwm bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ledled y DU ynghylch datgelu gwybodaeth, mewn perthynas â chymal 56 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 60 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), a gwnaethom ofyn a oedd mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.[53]

74. Ymatebodd y Prif Weinidog fod ei swyddogion yn "ystyried a yw'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymal 56 yn briodol, am y byddai'r Cod Ymarfer canlyniadol yn berthnasol i gyrff cyhoeddus Cymru."[54]

Argymhelliad 1. Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ledled y DU ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymal 56 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 60 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

Cymalau 61 i 77

75. Gwnaethom ofyn i'r Prif Weinidog hefyd am y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â chymalau 61 i 77 (fel y'u cyflwynwyd; bellach cymalau 65 i 81 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), oherwydd y datganodd ym mharagraff 42 o'r Memorandwm fod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yn y cymalau hynny.[55]

76. Ymatebodd y Prif Weinidog fod ei swyddogion yn “ystyried a yw'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys mewn perthynas â chymalau 61-77 yn briodol, ac a fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru fod â phwerau yn y maes hwn”.[56]

Argymhelliad 2. Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad

[53] Llythyr at y Prif Weinidog, 15 Mai 2023, cwestiwn 2
[54] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 2
[55] Llythyr at y Prif Weinidog, 15 Mai 2023, cwestiwn 3
[56] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 3

deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â chymalau 61 i 77 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymalau 65 i 81 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

Cymal 92

77. Gwnaethom ofyn i'r Prif Weinidog gadarnhau bod y gwelliannau a wnaed gan gymal 92 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 98 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), yn estyn pŵer Harri'r Wythfed sy'n bodoli eisoes sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, ac egluro'r rhesymeg y tu ôl i hepgor y wybodaeth hon o'r Memorandwm.[57]

78. Yn ei ymateb, cadarnhaodd y Prif Weinidog fod y "diwygiadau a wnaed gan gymal 92 yn estyn pŵer Harri'r VIII sy'n bodoli eisoes, sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, drwy alluogi rhannu gwybodaeth er mwyn gwella darparu gwasanaethau cyhoeddus i fusnesau".[58]

79. Dywedodd wrthym na wnaed cyfeiriad at hyn yn y Memorandwm "gan fod hwn yn bŵer sy'n cael ei addasu yn hytrach na phŵer sy'n cael ei roi". Cadarnhaodd y Prif Weinidog fod y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 35 o *Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017* (y pŵer sy'n cael ei addasu), yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.[59]

Casgliad 3. Er ein bod yn cydnabod yr esboniad a roddwyd gan y Prif Weinidog, rydym o'r farn y byddai wedi bod yn fwy priodol a defnyddiol pe bai cyfeiriad mwy tryloyw ac eglur at estyn pŵer Harri'r Wythfed a oedd wedi'i gynnwys yng nghymal 92 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 98 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) wedi'i wneud yn y Memorandwm.

Cymal 93 a phwerau cydredol

80. Yng nghwestiwn 5 o'n llythyr ar 15 Mai, gwnaethom gyfeirio at sylwadau'r Prif Weinidog yn y Memorandwm y dylid rhoi pwerau priodol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar waith, mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, ar gyfer agweddau ar weithredu'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd y Senedd, a bod y mater hwn yn destun trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU. Gwnaethom ofyn i'r Prif Weinidog am y wybodaeth

[57] Llythyr at y Prif Weinidog, 15 Mai 2023, cwestiwn 4
[58] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 4
[59] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 4

ddiweddaraf am y trafodaethau, yn ogystal â barn Llywodraeth Cymru am y materion a gadwir yn ôl a'r rhai datganoledig yn y maes hwn.

81. Gwnaethom ofyn hefyd am enghraifft o sut y gallai cytundebau rhyngwladol sy'n dod o dan gymal 93 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 99 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru a/neu gyrff cyhoeddus datganoledig i'w cyflawni. Yhellach, gwnaethom ofyn a yw'n ymwybodol o gytundebau rhyngwladol sydd ar y gweill a fyddai'n cael eu gweithredu drwy bwerau'r Bil.

82. Ymatebodd y Prif Weinidog:

> "Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y maes hwn. (...)
>
> *Byddai diwygiadau 8–16 ac NC5 yn rhoi pwerau cydredol i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau at ddibenion rhoi cytundeb rhyngwladol ar waith, mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, ar gyfer yr agweddau ar weithredu'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd y Senedd."*[60]

83. Datganodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru "yn erbyn pwerau cydredol heb fesurau diogelu cyfansoddiadol", a bod hyn yn fater roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i'w drafod â Llywodraeth y DU.[61] (Gweler isod am ragor o sylwadau ar bwerau cydredol).

84. Ychwanegodd y Prif Weinidog y canlynol:

> *"Ein dealltwriaeth ni yw bod cymal 93 yn ymwneud yn bennaf â rhaglen I-LEAP, sydd wedi cael ei dylunio yn fras i fod yn olynydd i System Wybodaeth Schengen II yr Undeb Ewropeaidd yr roedd gennym fynediad ati cyn gadael yr UE. Mae rhaglen I-LEAP wedi'i dylunio i gynyddu cydweithredu rhyngwladol drwy wella mynediad at system INTERPOL, a chynyddu'r defnydd o'r system honno."*

85. Ymhellach, dywedodd y canlynol wrthym:

> *"Mae gan y Senedd gymhwysedd i wneud darpariaeth ar gyfer erlyn troseddau a gweithredu cosbau troseddol mewn perthynas ag amrediad o faterion datganoledig fel trosedd amgylcheddol neu drosedd bywyd gwyllt.* Ar sail hyn, mae'n bosibl y gallai fod gan Lywodraeth Cymru

[60] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 5
[61] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 5

ddiddordeb mewn unrhyw weithgaredd a gyflawnir drwy I-LEAP sy'n rhyngwynebu â'r meysydd hyn.

O dan y setliad datganoli presennol, yn ymarferol rydym yn disgwyl i'r diddordeb hwn fod yn weddol gyfyngedig. Nid ydym yn disgwyl iddo chwaith roi unrhyw ofynion ychwanegol nodedig ar Lywodraeth Cymru nac ar unrhyw gyrff cyhoeddus o dan y setliad datganoli presennol; yn enwedig am y byddai I-LEAP, yn fras, yn disodli set bresennol o drefniadau a oedd ar waeth pan oeddem yn rhan o'r UE.

O safbwynt cyfansoddiadol, ein barn gadarn yw y dylai'r setliad datganoli gael ei ddiogelu a chymhwysedd y Senedd gael ei barchu.

Hefyd, er mwyn paratoi ar gyfer dyfodol lle mae polisi'n cael ei ddatganoli yn unol ag argymhellion Comisiwn Silk a Chomisiwn Thomas, mae'n bwysig sicrhau bod deddfwriaeth sy'n cael ei drafftio nawr yn cael ei pharatoi ar gyfer y pwerau o sylwedd mwy rydym yn disgwyl i Weinidogion Cymru fod â nhw yn y maes hwn yn y dyfodol."[62]

86. Mae egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU yn datgan "n[a] ddylai Biliau'r DU greu pwerau cydredol".[63] Mae ddiffiniadau o bwerau cydredol a chydredol plws (o ganllawiau Llywodraeth Cymru) wedi'u cynnwys ym Mlwch 1:

Blwch 1: Diffiniadau

Pŵer cydredol yw pŵer y gellir ei weithredu:

(a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu

(b) gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru (er enghraifft, pan fo Gweinidogion y DU yn gweithredu pwerau mewn perthynas â'r DU gyfan; neu mewn perthynas â Chymru a Lloegr).

Ni ddylai Gweinidogion y DU weithredu eu pwerau mewn perthynas â Chymru heb gytundeb Gweinidogion Cymru fel arfer, ond (oni bai ei fod yn bŵer cydredol plws – gweler isod) nid oes gofyniad cyfreithiol iddynt gael cydsyniad er mwyn deddfu.

Pŵer "cydredol plws" yw math arbennig o bŵer cydredol y gellir ei weithredu:

[62] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 5
[63] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Awst 2021, Atodiad B: Canllawiau ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol

(a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu

(b) yn amodol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru, gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried p'un ai i roi cydsyniad i Weinidogion y DU weithredu pŵer cydredol plws, maent yn gweithredu swyddogaeth statudol. Os nad ydynt yn rhoi cydsyniad, ni all Gweinidogion y DU weithredu y pwerau hyn mewn perthynas â Chymru.

87. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr egwyddor a ganlyn:

> *"Egwyddor 8: Dylid ond creu swyddogaethau cydredol newydd mewn amgylchiadau eithriadol iawn a dylai timau sicrhau y bydd eithriad mesurau yn berthnasol fel na fydd angen cydsyniad wrth eu dileu (i warchod cymhwysedd deddfwriaethol), a'u bod yn gydredol plws (i warchod cymhwysedd gweithredol)."* [64]

88. Nodwn fod trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi arwain at roi pŵer cydredol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar waith, mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, ar gyfer agweddau ar weithredu'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd y Senedd. Nodwn ymhellach nad pŵer 'cydredol plws' yw hyn, sy'n golygu nad oes gofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i Lywodraeth y DU arfer y pŵer mewn maes datganoledig.

89. Fel y pwysleisiwyd uchod ym mharagraff 45, rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn erbyn y defnydd o bwerau cydredol a'i bod yn dal i gymryd rhan mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ar y materion hyn. Rydym hefyd yn nodi bod y Prif Weinidog yn argymell bod y Senedd yn gwrthod ei chydsyniad ar gyfer cymal 93 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 99 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).[65]

Casgliad 4. Rydym yn achub ar y cyfle i ailadrodd barn rydym wedi'i mynegi o'r blaen ac i atgoffa Llywodraeth Cymru o'n pryderon ynghylch ei dull o ran pwerau cydredol. Er ein bod yn cydnabod y gallai pŵer cydredol plws gael ei ffafrio dros bŵer cydredol, oherwydd y trefniant cydsynio Gweinidogol ychwanegol, nid yw

[64] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Awst 2021, Atodiad B
[65] Memorandwm Rhif 2, paragraff 32

pwerau cydredol plws yn ddelfrydol gan nad ydynt yn darparu rôl i'r Senedd graffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir mewn meysydd datganoledig.

Casgliad 5. Rydym yn achub ar y cyfle hefyd i ailadrodd barn rydym wedi'i mynegi o'r blaen am weithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol, y dylai Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n angenrheidiol mewn meysydd datganoledig at ddiben rhoi effaith i'r cytundebau hynny. Nodwn y gallai'r casgliad hwn gael ei ailgymhwyso i gytundebau rhyngwladol y mae eu gweithredu o fewn cymhwysedd datganoledig.

Argymhelliad 3. Pan na fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i weithredu cytundebau rhyngwladol, a bod pwerau i wneud hynny'n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn lle hynny, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu manylion llawn ac esboniad i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Cymal 36

90. Yng nghwestiwn 6 o'n llythyr at y Prif Weinidog, gwnaethom ofyn am eglurhad ar y safbwynt a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru ar gymal 36 (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 38 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), ac a yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch drafftio'r cymal hwn a'i effaith yng Nghymru.

91. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran 148A newydd yn Neddf Diogelu Data 2018 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau cyfweliadau, y gellir eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i berson fynd i gyfweliad ac ateb cwestiynau ar gais gan y Comisiynydd Gwybodaeth (y Comisiynydd).[66]

92. At hynny, mae cymal 36 yn mewnosod adran 148B newydd, sy'n gosod cyfyngiadau penodol ar yr amgylchiadau pan gaiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i berson ateb cwestiynau o dan hysbysiad cyfweliad. Mae is-adran (9) yn rhestru cyrff na chaiff y Comisiynydd roi hysbysiad cyfweliad iddynt, gan gynnwys y Swyddfa Safonau mewn Addysg i'r graddau ei fod yn rheolwr neu'n brosesydd mewn cysylltiad â gwybodaeth a brosesir at ddibenion swyddogaethau sy'n arferadwy gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg, Gwasnaethau Plant a Sgiliau yn rhinwedd adran 5(1)(a) o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

93. Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn ymwneud â chofrestru cartrefi plant yn Lloegr, canolfannau preswyl i deuluoedd yn Lloegr, asiantaethau maethu yn

[66] Nodwn, yn ymarferol, y bydd y cyfeiriad at y Comisiynydd yn cael ei ddarllen fel cyfeiriad at y Comisiwn Gwybodaeth sydd newydd ei ffurfio, o dan adran 102(2) o'r Bil.

Lloegr neu, pan fo dwy gangen neu ragor yn gyfrifol am weithgareddau asiantaeth faethu, y canghennau yn Lloegr, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol y mae eu prif swyddfa yn Lloegr, ac asiantaethau cymorth mabwysiadu yn Lloegr neu, pan fo dwy gangen neu ragor yn gyfrifol am weithgareddau asiantaeth cymorth mabwysiadu, y canghennau yn Lloegr. Nid yw'r Bil yn cynnwys esemptiad tebyg ar gyfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chofrestru sefydliadau ac asiantaethau tebyg yng Nghymru, sy'n golygu y caiff y Comisiynydd roi hysbysiad cyfweliad mewn perthynas â'r materion hynny yng Nghymru, ond nid yn Lloegr.

94. Ymatebodd y Prif Weinidog:

> *"Rwy'n cytuno â'ch asesiad bod cymal 36 o'r Bil yn mewnosod adrannau 148A – 148C i Ddeddf Diogelu Data 2018, sy'n rhoi pwerau i'r Comisiynydd Gwybodaeth i'w gwneud yn ofynnol i rai personau fynychu cyfweliad pan amheuir nad yw person yn cydymffurfio â gofynion penodol deddfwriaeth diogelu data. Hefyd, o fewn adran newydd 148B, fod is-adran (9) yn rhoi rhai cyfyngiadau ar y amgylchiadau lle y gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofyn i berson ateb cwestiynau o dan hysbysiad cyfweliad, ac yn eithrio rhai personau o gwmpasiad y pŵer."*[67]

95. Ychwanegodd y Prif Weinidog y canlynol:

> *"Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried ein safbwynt mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, lle mai Llywodraeth Cymru yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y gwasanaethau cyfatebol yng Nghymru – sef gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn hollol neu'n bennaf ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau maethu a gwasanaethau mabwysiadu."*[68]

Argymhelliad 4. Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o gymal 36 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 38 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

Y dynamig rhwng y DU a'r UE

96. Fel y nodwn uchod ym mharagraffau 47 i 60, mae'r Prif Weiidog wedi tynnu sylw at bryderon bod cyflwyno'r Bil yn creu risg i benderfyniad digonolrwydd

[67] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 6
[68] Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 6

presennol y DU, a roddwyd ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod o 4 blynedd i ddechrau.

97. Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am effeithiau cyfansoddiadol materion allanol, rydym yn cydnabod bod y Bil yn croestorri rhwymedigaethau'r DU a'r UE. Mae'n cyffwrdd â sawl agwedd ar ein cylch gorchwyl, gan gynnwys llywodraethu'r DU a'r UE a chydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol. O'r safbwynt hwn, rydym wedi ystyried yr agwedd hon ar y Bil.

98. Rydym yn nodi ac yn croesawu eglurder a manylion safbwynt Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn ei hymateb i'r ymgynghoriad a ragflaenodd y Bil, y Memorandwm ac ymateb y Prif Weinidog i'n llythyr ar 15 Mai. Rydym yn croesawu'n arbennig y manylder a roddwyd gan y Prif Weinidog ar oblygiadau colli'r penderfyniad digonolrwydd i Gymru.

Argymhelliad 5. Rydym yn cefnogi cais Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU y dylai rannu copi ar frys o'i hasesiad risg ar y Bil a cholli'r penderfyniad digonolrwydd.

Casgliad 6. Rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch risg bosibl colli'r penderfyniad digonolrwydd a goblygiadau hynny i Gymru, y DU a'r UE.

99. Mae ein pryderon yn ymestyn y tu hwnt i'r meysydd a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n ymwneud yn bennaf â masnach, â rhannu data a gwmpesir gan y Bil a'r penderfyniad digonolrwydd, gan gynnwys cydweithrediad gorfodi'r gyfraith.

Argymhelliad 6. O ystyried y pryderon ynghylch risg bosibl colli'r penderfyniad digonolrwydd, dylai'r Prif Weinidog uwchgyfeirio'r mater hwn i drafodaethau Gweinidogol, yn hytrach na thrafodaeth swyddogol.

100. Rydym yn nodi'r rhwymedigaethau a osodir ar y DU a'r UE yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gan gynnwys bod cynnal safonau uchel o ddiogelu data personol yn sail ar gyfer cydweithrediad rhwng y DU a'r UE ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Argymhelliad 7. Dylai'r Prif Weinidog roi i'r Pwyllgor hwn erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, farn Llywodraeth Cymru am y Bil gan ei fod yn ymwneud â chydymffurfedd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.